Appendix 2

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORWYR

Dyma'r adroddiad gan y Cynghorydd a enwir isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2019. Fe'i darperir er gwybodaeth ar gyfer pob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau: Mae cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran, ond mae'r adroddiad i'w gadw i'r fformat ***uchafswm 2 dudalen*** *hyn.*

Y Cynghorydd: Greg Paulsen **Plaid: Amherthnasol**
Ward: Badminton

Adran 1 – Rolau a Chyfrifoldebau
Rwy'n aelod o'r: • Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol (5 cyfarfod) • Craffu yr Amgylchedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (5 cyfarfod) • Pwyllgor Archwilio (4 cyfarfod) • Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (ni chynhaliwyd cyfarfodydd) Dros y 12 mis diwethaf rwyf hefyd wedi mynychu: • Cyfarfodydd y cyngor llawn (5 cyfarfod) • Cyfarfod Cyngor Arbennig (2 gyfarfod) • Sesiynau briffio aelodau (cyfanswm o 4) • Cyfarfod Craffu ar y Cyd (2 gyfarfod)
Adran 2: Gweithgarwch Etholaeth
Rwyf gyda fy nghydweithiwr, y Cynghorydd Clive Meredith, yn cynnal cymorthfeydd cymunedol misol yn y Cwt Sgowtiaid Beaufort a Rassau yn Cambridge Gardens. Mae’r rhain ar y dydd Llun cyntaf o bob mis ac eithrio mis Awst. Rwyf wedi delio â materion o'r gymuned gan gynnwys: • Materion parcio • Torri gwair, cynnal a chadw mannau cyhoeddus • Sbwriel ac ailgylchu • Tai • Yr heddlu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau cymunedol lleol ac wedi cefnogi lle bo'n briodol ar faterion yn ymwneud â'r grwpiau cymunedol gan gynnwys ariannu, cynllunio a chysylltu a chreu cysylltiadau ag adran benodol o fewn CBSBG.

Adran 3: Gweithgareddau Gweithredol a Chraffu
Rwyf wedi mynychu ac wedi cymryd rhan weithredol ym mhob un o'r pwyllgorau craffu yr oeddwn i arnynt, gan ofyn cwestiynau perthnasol a chael adborth ar faterion yr oedd angen eu hegluro ymhellach.
Adran 4: Hyfforddiant a Datblygiad
Rwyf wedi mynychu sesiynau hyfforddiant a datblygiad yn ystod y 12 mis diwethaf ar draws meysydd sy'n cynnwys blaenoriaethau Addysg Ysgolion yr 21ain Ganrif, Brexit ac Adfywio.
Adran 5: Mentrau, Gweithgareddau Arbennig a Materion
Rwyf wedi cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol gyda chymorth a chefnogaeth ar ariannu a datblygu prosiectau a gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys cefnogi nifer o grwpiau cymunedol drwy'r Ardoll Arbennig (Half Penny Rate).
Llofnod y Cynghorydd: **Dyddiad:** 14eg Mehefin 2018